# *Dysgu ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol tri a phedwar: Addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg*

DYLAN V. JONES
*Coleg Prifysgol y Drindod*

GWYN LEWIS
*Prifysgol Bangor*

SUE GEORGE
*Prifysgol Cymru Casnewydd*

MARIAN THOMAS
*Coleg y Drindod Caerfyrddin*

JANET LAUGHARNE
*Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd*

## *Y Broblem*

Dengys ffigurau Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007), o blith yr holl ddisgyblion yng Nghymru yng ngrwpiau blwyddyn 7–11 yr ysgolion uwchradd a gynhelir, fod Cymraeg yn cael ei haddysgu i 99.1 y cant ohonynt, naill ai fel iaith gyntaf (15.4 y cant) neu fel ail iaith (83.7 y cant). Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgolion uwchradd, felly, yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf, serch hynny, mynegodd Estyn gryn bryder ynghylch y safonau cyrhaeddiad a welwyd yn y Gymraeg fel ail iaith ar lefel uwchradd:

> Mewn Cymraeg fel ail iaith, roedd rhai diffygion pwysig mewn hanner y gwaith bron, ac roedd bron i un o bump o'r gwersi'n raddau 4 neu 5. Mae hyn yn waeth na'r llynedd ac mae'n dangos bod y safonau isel a welwyd yn y pwnc yn y blynyddoedd blaenorol yn parhau. (Estyn, 2008: 20)

10 Jones:Welsh Journal of Education 29/7/09 10:04 Page 112



O fewn manyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith mae dewis o ddau gwrs: y cwrs 'byr' a'r cwrs TGAU 'llawn', gyda'r cwrs byr yn gyfwerth â hanner cymhwyster TGAU llawn. Mewn arfarniad o'r cwrs byr TGAU Cymraeg Ail Iaith yn seiliedig ar ymweliadau â dwy ar bymtheg o ysgolion uwchradd, canfu Estyn fod 'diffygion sylfaenol mewn cyflwyno Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 ac wrth gyflwyno'r cwrs byr yn benodol' (Estyn, 2007: 15). Canfuwyd hefyd mai 'dim ond nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU byr Cymraeg ail iaith sy'n gwneud cynnydd da tuag at ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl' (Estyn, 2007: 3).

Yn ystod y tair blynedd rhwng 2004 a 2006, bu gostyngiad yng nghyfran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs TGAU llawn (o ryw 12,000 yn 2004 i ychydig dros 9,500 yn 2006) a chynnydd cyfatebol yn y rhai a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs byr. Yn 2006, am y tro cyntaf, roedd nifer y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs byr yn uwch na'r nifer ar y cwrs llawn (Estyn, 2007). Yn 2006, roedd 34.8 y cant o'r garfan gyfan heb eu cofrestru ar gyfer unrhyw fath o arholiad yn y Gymraeg, boed yn iaith gyntaf neu'n ail iaith.

O ystyried y ffeithiau uchod gyda'i gilydd, dynoda'r dystiolaeth fod mwyafrif helaeth y disgyblion yng Nghymru yn dysgu Cymraeg fel ail iaith; bod rhesymau dros bryderu am gyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith a chyflwyno'r cwrs byr yn enwedig; bod y nifer o ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs byr ar gynnydd ac nad oes gan ryw draean o'r garfan gyfan unrhyw gymhwyster TGAU yn y Gymraeg.

Mae manyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd yn cael ei dreialu ar hyn o bryd; manyleb sy'n ceisio gwneud y cwrs yn fwy perthnasol i ddysgwyr cyfredol trwy berthnasu'r Gymraeg â chyd-destunau pob dydd a galwedigaethol. Hyd yn oed os bydd y cwrs newydd hwn yn profi i fod yn fwy poblogaidd na'r cwrs presennol, ymddengys fod yr amser a neilltuir ar hyn o bryd i'r pwnc mewn rhai ysgolion yn annigonol. Dim ond 15 y cant o'r ddwy ysgol ar bymtheg y bu Estyn yn ymweld â nhw fel rhan o'r arolwg y cyfeiriwyd ato uchod oedd yn neilltuo'r amser a argymhellir gan y bwrdd arholi, sef dwy awr a hanner y pythefnos, ar gyfer cyflwyno'r cwrs byr. Daeth Estyn i'r casgliad:

> mae'r dyraniad amser a argymhellir o ddwy awr a hanner bob pythefnos ar gyfer y cwrs byr yn parhau i gymharu'n anffafriol â'r oriau cyswllt wythnosol mewn cyrsiau Cymraeg dwys ar gyfer oedolion. Mae angen tua phedair awr yr wythnos o amser cyswllt ar ddysgwyr (gan gynnwys cyswllt ffurfiol ac anffurfiol) i ddod yn rhugl mewn iaith. (Estyn, 2007: 14)

10 Jones:Welsh Journal of Education 29/7/09 10:04 Page 113



*Arwyddocâd y mater*

Mae nifer gynyddol o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac mae nifer o oedolion yn dysgu Cymraeg ar ôl gadael ysgol trwy fynychu cyrsiau Cymraeg i oedolion. I drwch y boblogaeth, fodd bynnag, eu prif gyfle i ddysgu'r Gymraeg yw yn yr ysgol yn eu gwersi Cymraeg fel ail iaith. Awgryma'r dystiolaeth y cyfeiriwyd ati yn yr adran flaenorol, fodd bynnag, nad yw dysgu ac addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn nifer o achosion, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol pedwar, mor effeithiol ag y gallai fod.

Yn Iaith Pawb, ei Gynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Ddwyieithog (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003:11) gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) y nod o sicrhau erbyn 2011 bod y ganran o bobl Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 pwynt canran o ffigwr cyfrifiad 2001, h.y. o 20.8 y cant i 25.8 y cant. Fe ymddengys, fodd bynnag, bod cryn ddiffygion o ran addysgu'r Gymraeg fel ail iaith ac ymddengys yn rhesymol awgrymu na fydd hyn o gymorth i LlCC gyrraedd ei darged ar gyfer 2011. Yn wir, nododd Estyn fod y diffygion mewn cyflwyno Cymraeg fel ail iaith yn 'rhwystr rhag bodloni'r targed yn Iaith Pawb' (Estyn, 2007: 15).

Mae tystiolaeth o gyd-destunau tebyg yn rhyngwladol wedi dynodi ers cryn amser nad yw addysgu ail iaith fel 'pwnc' yn wythnosol neu hyd yn oed yn ddyddiol (y cyfeirir ato weithiau fel y dull bwydo/dysgu ychydig ar y tro neu 'drip feed'), mor effeithiol â rhai dulliau eraill. O'n profiad ni yng Nghymru a phrofiadau Gwlad y Basg, Catalonia, Canada a mannau eraill, awgryma tystiolaeth mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddysgu ail iaith, o fewn y math o gyd-destunau sydd gennym ni yng Nghymru, yw trwy raglenni trochi ieithyddol wedi'u hanelu at ddysgwyr ifainc.

Erbyn i ddisgyblion yng Nghymru gyrraedd Cyfnod Allweddol pedwar, byddant wedi cael gwersi Cymraeg naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith am o leiaf naw mlynedd. Yn ardaloedd mwy Seisnigaidd Cymru, fodd bynnag, gwelir rhai nodweddion tebyg rhwng addysgu Cymraeg fel ail iaith ac addysgu Ieithoedd Tramor Modern (ITM) megis Ffrangeg a Sbaeneg. O wybod faint o amser mae'r disgyblion wedi bod mewn cysylltiad â'r Gymraeg fel ail iaith, ynghyd â'r cysylltiad allanol â'r iaith, ni ddisgwylid y fath nodweddion tebyg, ond awgryma tystiolaeth anecdotaidd fod peth tebygrwydd, yn enwedig mewn rhai achosion. Gwelwyd bod addysgu ITM yn elwa o ddulliau lle mae'r iaith darged yn cael ei defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon, pwrpasol a chymdeithasol. Mae Content and Language Integrated Learning (CLIL) yn derm a fabwysiadwyd fel ymadrodd cynhwysfawr cyffredinol a

fyddai'n cwmpasu unrhyw weithgaredd lle defnyddir iaith dramor fel cyfrwng i ddysgu pwnc heblaw iaith lle mae gan yr iaith a'r pwnc fel ei gilydd rôl gwricwlaidd ar y cyd (Marsh, 2002: 58). Hyd yn hyn, fodd bynnag, ni chafwyd fawr o arbrofi nac ymchwil yng Nghymru o ran datblygu'r fath ddulliau integredig o addysgu ITM neu Gymraeg fel ail iaith. Ar hyn o bryd, mae disgyblion oedran ysgol yn dysgu Cymraeg yn bennaf trwy raglenni trochi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu drwy wersi ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r cyntaf wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn tra bod yr olaf yn destun cryn bryder. Mae'r grŵp o'r farn y gellid gwneud mwy i archwilio pedagogeg CLIL a theimla y gallai dulliau pedagogeg o'r fath gynnig cryn botensial ar gyfer addysgu'r Gymraeg fel ail iaith (Fortune et al., 2008). Ar adeg pan ymddengys fod cryn dipyn o'r dysgu a'r addysgu ym maes ail iaith gyda disgyblion hŷn yng Nghymru yn dibynnu'n helaeth ar y dull bwydo/dysgu ychydig ar y tro, mae'r grŵp wedi penderfynu canolbwyntio'i sylw ar ddynodi enghreifftiau lle mae'r dull bwydo/dysgu ychydig ar y tro, er gwaethaf ei gyfyngiadau cydnabyddedig, wedi profi i fod yn gymharol lwyddiannus.

Ceir rhai achosion lle mae ysgolion unigol, o ran cyraeddiadau eu disgyblion ar lefel TGAU mewn Cymraeg fel ail iaith, wedi bod yn gymharol lwyddiannus a nod yr ymchwil a ddisgrifir yma yw dynodi beth sy'n arbennig am yr ysgolion hyn sy'n eu galluogi i 'lwyddo'. Mewn geiriau eraill, a derbyn bod rhesymau dros gwestiynu'r ymagwedd gyffredinol at ddysgu ail iaith ar y lefel uwchradd mewn nifer o ysgolion, beth allwn ni ei ddysgu o'r ysgolion hynny sy'n llwyddo i'w wneud yn gymharol dda?

Wrth ganolbwyntio ar achos addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru mae'r tîm yn ymwybodol nad mater i ni yng Nghymru yn unig mo hwn. Rhagwelir bod cryn dipyn y gellid ei ddysgu o gyd-destunau tebyg mewn mannau eraill a mynegwyd diddordeb eisoes yng ngwaith y grŵp gan gydweithwyr rhyngwladol posibl.

### *Amcanion yr Ymchwil a'r Fethodoleg Arfaethedig*

Mae Cymraeg naill ai fel iaith gyntaf neu fel ail iaith yn rhan statudol o'r cwricwlwm i holl ddisgyblion Cymru ond awgryma tystiolaeth anecdotaidd bod cryn amrywiaeth yn y modd y gweithredir y gofynion statudol, yn enwedig o ran yr amser a neilltuir i'r pwnc at ei gilydd mewn blwyddyn a'r modd y dosrennir yr amser hwnnw ar draws y flwyddyn galendr. Prif amcan ymchwil y grŵp yw:

10 Jones:Welsh Journal of Education 29/7/09 10:04 Page 115



- dynodi sut mae addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith yng Nghyfnod Allweddol tri a Chyfnod Allweddol pedwar wedi'i drefnu ar draws ysgolion uwchradd Cymru.

Bydd rhan un y prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar yr amser a ddyrennir i'r pwnc a'r modd y dosrennir yr amser hwnnw ar hyd y flwyddyn ysgol a thros Gyfnodau Allweddol tri a phedwar. Cesglir y data trwy gyfrwng holiadur i'w anfon at holl ysgolion uwchradd Cymru. Yn dilyn yr arolwg hwn cynhelir nifer o gyfweliadau â'r sawl sy'n gyfrifol am arwain addysgu Cymraeg fel ail iaith o fewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg a chydag ymgynghorwyr awdurdodau addysg lleol.

Ail amcan yr ymchwil fydd:

- dynodi ystod o nodweddion yn gysylltiedig ag ysgolion sydd yn gymharol 'lwyddiannus' o ran eu canlyniadau TGAU Cymraeg ail iaith.

Bydd rhan dau y prosiect yn cynnwys astudiaeth achos o nifer fach o ysgolion uwchradd 'cymharol lwyddiannus'. At ddiben yr ymchwil a ddisgrifir yma, cyfeiria'r term 'cymharol lwyddiannus' at ysgolion sydd â chyfraddau cyfranogi a chyrhaeddiad uwch na'r cyffredin ar gyfer Cwrs TGAU (Llawn) Cymraeg Ail Iaith CBAC.

Cred y tîm y gallai'r ffactorau a restrir isod fod yn ddylanwadau pwysig ar 'lwyddiant' a byddai'n dymuno archwilio'r ffactorau hyn o fewn ysgolion yr astudiaeth achos.

- y modd y trefnir y dysgu
- ffactorau sy'n dylanwadu ar barhad a dilyniant
- gwybodaeth yr athrawon o'r pwnc a'u dulliau pedagogaidd
- yr adnoddau dysgu ac addysgu sydd ar gael a natur yr adnoddau hynny
- agweddau disgyblion tuag at y Gymraeg
- cefnogaeth yr uwch reolwyr

Bydd y dulliau methodolegol yn cynnwys holiaduron, cyfweliadau grwpiau ffocws ac unigol gyda rheolwyr, athrawon a disgyblion, dadansoddiad o ddata arholiad a thueddiadau ystadegol.

Tra bod modd cynnal rhan un y prosiect gan ddefnyddio cymorth sefydliadol, dibynna graddfa'r ymchwil a gyflawnir gan y tîm o fewn rhan dau ar allu'r tîm i sicrhau nawdd allanol pellach.

10 Jones:Welsh Journal of Education 29/7/09 10:04 Page 116



*Deilliannau proses y bwrsari grŵp*

Mae pob aelod o'r tîm wedi cyfrannu sgiliau a phrofiadau gwahanol i drafodaethau'r grŵp. Mae gan rai aelodau brofiad proffesiynol sylweddol o addysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae gan eraill brofiad o ymgeisio am grantiau gan yr ESRC a ffynonellau ariannu eraill ac o ymgymryd â phrosiectau ymchwil a chyhoeddi. Ni fyddai'r grŵp wedi gallu dod at ei gilydd heb gyllid RhYAC a'r gefnogaeth sefydliadol gysylltiedig. Mae'r deilliannau a nodir isod yn ganlyniad uniongyrchol i'r cyllid a dderbyniodd y grŵp gan RhYAC.

Yn ychwanegol at y papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd RhYAC yn Llandrindod ym mis Mai 2008, mynychodd tri aelod o'r grŵp y Gynhadledd Ewropeaidd ar Ymchwil Addysg yn Göteborg ym mis Medi 2008 i gyflwyno papur ar waith y grŵp. Yn ogystal cyflwynodd aelod o'r grŵp bapur yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Ymchwil Addysg yr Alban yn Perth ym mis Tachwedd 2008. Dyma'r tro cyntaf i rai o aelodau'r tîm roi cyflwyniad mewn cynhadledd ymchwil addysg.

Cefnogwyd gwaith y prosiect gan bob sefydliad trwy sicrhau y gallai'r ymchwilwyr fynychu cyfarfodydd y grŵp a thrwy ddarparu ystafell gyfarfod, cinio a diodydd ar gyfer y cyfarfodydd. Gan amlaf, darparwyd cefnogaeth sefydliadol i fynychu diwrnodau hyfforddi RhYAC. I rai aelodau o'r grŵp, bu bwrsari RhYAC o fudd o ran sefydlu gweithdrefnau sefydliadol clir i reoli cronfeydd ymchwil allanol a neilltuwyd cronfeydd RhYAC, na ellid eu defnyddio i brynu amser staff yn rhydd o'u dyletswyddau arferol, i'w defnyddio wrth fynychu cynadleddau a datblygu rhan un y prosiect.

*Datblygiadau i'r Dyfodol*

Gyda chefnogaeth sefydliadol, bwriada'r grŵp ymgymryd â rhan un yr ymchwil o fewn yr ychydig fisoedd nesaf. Fel y nodwyd uchod, fodd bynnag, bydd gallu'r grŵp i ymgymryd â rhan dau y prosiect yn amodol ar ei allu i ddenu nawdd allanol.

*Cyfeiriadau*

Estyn (2007). *Arfarniad o'r Cwrs Byr Cymraeg TGAU Ail Iaith*, Caerdydd, Estyn

Estyn (2008). *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2006–2007*, Caerdydd, Estyn

10 Jones:Welsh Journal of Education 29/7/09 10:04 Page 117



Fortune, T. W., Tedick, D. J. a Walker, C. L. (2008). 'Integrated language and content teaching: insights from the immersion classroom', yn T. W. Fortune a D. J. Tedick (goln), *Pathways to Multilingualism: Evolving Perspectives on Immersion Education,* Clevedon, Multilingual Matters, tt. 71–96.

Marsh, D. (gol.) (2002). *CLIL/EMILE The European Dimension: Actions, Trends and Foresight Potential Public Services Contract DG EAC*, University of Jyväskylä, Finland, European Commission.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003). *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). *Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2007*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.